**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Polisi Rhywogaethau Estron Goresgynnol**

# 1. Cefndir

I gydnabod yr effeithiau amgylcheddol, ecolegol, cyfreithiol ac economaidd-gymdeithasol cynyddol a achosir gan rywogaethau estron goresgynnol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) wedi paratoi'r polisi hwn er mwyn esbonio ei ddull o ddelio â rhywogaethau estron goresgynnol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Sefydlwyd rhaglen Rhywogaethau Goresgynnol y Cyngor yn 2022 ac mae'n cynnwys swydd newydd, sef Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol, a fydd yn cydgysylltu dull y Cyngor cyfan o reoli, mapio, monitro a thrin rhywogaethau estron goresgynnol a restrir yn Atodlen 9 i'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (fel y'i diwygiwyd) (1981)[1] ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol yn y DU. Mae Atodlen 9 i'r Ddeddf hon yn rhestru rhywogaethau estron goresgynnol sydd eisoes wedi ymsefydlu yn y gwyllt ond sy'n parhau i fygwth y gallu i warchod bioamrywiaeth a chynefinoedd brodorol, i'r graddau y dylid rheoleiddio unrhyw ryddhau pellach. Mae'r rhestr lawn o rywogaethau anifeiliaid goresgynnol i'w gweld yn Rhan I o Atodlen 9 i'r Ddeddf hon ac mae'n cynnwys hwyaden goch sydd wedi cytrefu ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r rhestr lawn o rywogaethau planhigion goresgynnol i'w gweld yn Rhan II o Atodlen 9 i'r Ddeddf ac mae'n cynnwys clymog Japan, jac y neidiwr, a rhododendron wyllt, sydd i gyd wedi cytrefu ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

[1] Llywodraeth y DU, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69/contents

## 1.1. Cyflwyniad

Rhywogaethau sydd wedi cael eu cyflwyno i ardaloedd y tu allan i'w cynefinoedd naturiol ac sy'n fygythiad i fywyd gwyllt brodorol neu seilwaith ffisegol yw rhywogaethau estron goresgynnol. Ceir llawer o rywogaethau estron na fyddant yn tarfu fawr ddim ar yr amgylchedd na'r seilwaith yn eu lleoliadau newydd, os o gwbl, ond bydd rhai'n ymsefydlu ac yn ffynnu mewn ffordd sy'n bygwth bioamrywiaeth frodorol. Y rhywogaethau hyn yw'r rhai a ddisgrifir fel rhai 'goresgynnol'.

Gall rhywogaethau estron goresgynnol achosi problemau i fywyd gwyllt brodorol mewn sawl ffordd, er enghraifft:

- Ysglyfaethu
- Cystadleuaeth am adnoddau
- Cyflwyno clefydau newydd
- Croesrywedd

Gall rhywogaethau estron goresgynnol hefyd achosi problemau i seilwaith, er enghraifft:

- Gall clymog Japan wthio'i ffordd drwy graciau bach iawn mewn bricwaith neu goncrit, gan roi llawer o bwysau ar seilwaith caled.
- Bydd tyllau cimwch afon America yn cynyddu erydiad glannau afonydd, gan olygu y bydd y glannau'n encilio mwy na 200% yn gyflymach mewn ardaloedd â dwysedd tyllau uchel[2]. Nid yw cimwch afon America yn bresennol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd.
- Mae'r gragen las resog ymhlith y cregyn deuglawr goresgynnol sy'n achosi'r mwyaf o ddifrod. Mae'n atgenhedlu'n gyflym ac yn ymwasgaru'n eang, a gall plâu mawr rwystro pibellau dŵr ac achosi rhwystrau i adeileddau caled mewn dŵr croyw. Nid yw'r gragen las resog yn bresennol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar hyn o bryd.

Gellir categoreiddio rhai pathogenau fel rhywogaethau estron goresgynnol hefyd, gan gynnwys clefyd coed ynn[3].

Y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n amddiffyn anifeiliaid, planhigion a chynefinoedd brodorol yn y DU, ac mae'n rheoli rhyddhau rhywogaethau estron goresgynnol penodol. Rhywogaethau sy'n fygythiad i fioamrywiaeth frodorol yw'r rhai a restrir yn Atodlen 9 i'r Ddeddf hon, a bydd y Ddeddf hon yn rhoi arweiniad i'r Cyngor ynghylch pa rywogaethau estron goresgynnol y bydd y polisi hwn a'r ymdrechion rheoli yn y Fwrdeistref Sirol yn canolbwyntio arnynt.

---

[2] Sanders H, Rice SP a Wood PJ, 2021, *Signal crayfish burrowing, bank retreat and sediment supply to rivers: A biophysical sediment budget*, Earth Surface Processes and Landforms 46, 4, 837-852

[3] JNCC, *Combating ash dieback – mitigating the impact of invasive diseases on biodiversity*, 30 Ebrill 2019, https://jncc.gov.uk/news/combating-ash-dieback-mitigating-the-impact-of-invasive-diseases-on-biodiversity/

# 2. Cwmpas a dull

Bwriedir i'r polisi hwn arwain dull y Cyngor o ddelio â rhywogaethau estron goresgynnol. Mae'n ystyried y strategaeth rhywogaethau estron goresgynnol ar gyfer Prydain gyfan[4].

Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â matrics blaenoriaethu'r Cyngor ar gyfer trin planhigion estron goresgynnol, a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig ar gyfer delio â'r rhywogaethau hynny.

Mae dull y Cyngor yn seiliedig ar y canlynol:

A) Gweithio gyda chynghorau cyfagos i osgoi cyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol a'u hatal rhag ymsefydlu yn Ne Cymru
B) Atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag cael eu cyflwyno ac ymsefydlu yn y Fwrdeistref Sirol
C) Gweithredu'n gyflym er mwyn cael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol newydd eu cyflwyno o'r Fwrdeistref Sirol
D) Cael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol sydd wedi ymsefydlu, yn seiliedig ar yr hierarchiaeth ganlynol:
    - Rhywogaethau sy'n achosi niwed economaidd sylweddol neu niwed sylweddol i seilwaith, neu'r rhai sydd â'r potensial i wneud hynny
    - Rhywogaethau sy'n achosi niwed ecolegol neu amgylcheddol sylweddol, neu'r rhai sydd â'r potensial i wneud hynny
E) Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol, yn seiliedig ar yr un hierarchiaeth
F) Peidio â gweithredu ynghylch rhywogaethau estron goresgynnol
G) Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o rywogaethau estron goresgynnol ymhlith rhanddeiliaid mewnol ac allanol

[4] DEFRA, *The Great Britain Invasive Non-Native Species Strategy,* Awst 2015, https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/the-great-britain-invasive-non-native-species-strategy.pdf

## A) Atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag ymsefydlu yn Ne Cymru

Mae porth ar-lein wedi cael ei greu ar wefan Atlas Wales y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (NBN) yn benodol ar gyfer y rhywogaethau estron goresgynnol hynny sydd o ddiddordeb arbennig i Gymru[5]. Mae'n cynnwys y rhywogaethau hynny y mae'n bwysig eu *hatal*. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, roedd 16 o rywogaethau o'r fath, ac roedd 12 ohonynt hefyd wedi ymsefydlu mewn rhannau eraill o'r DU.

| **Cam gweithredu** | **Swyddog cyfrifol** | **Goblygiadau cyllidebol** |
|---|---|---|
| Meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am y rhywogaethau hynny sydd o bwys arbennig er mwyn eu hatal rhag ymsefydlu yn Ne Cymru | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol | Amser swyddog |
| Cydgysylltu camau gweithredu i gael gwared ar y rhywogaethau hynny sydd ar y rhestr ac y rhoddir gwybod amdanynt yn y Fwrdeistref Sirol | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol<br><br>Gweithgor Gweithredu (adrannau perthnasol)<br><br>Contractwyr arbenigol | Amrywiol – sylweddol o bosibl |

## B) Atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag ymsefydlu yn y Fwrdeistref Sirol

Dylid asesu porth NBN Atlas er mwyn canfod pa rywogaethau estron goresgynnol nad ydynt yn bresennol yn y Fwrdeistref Sirol, ac yna lunio rhestr o'r rhai y dylid gwneud ymdrechion i'w hatal. Bydd y rhestr yn ystyried ffactorau megis:

- Pa mor sylweddol yw presenoldeb y rhywogaethau mewn rhannau eraill o Gymru
- Cost bosibl camau i'w hatal
- Cost ac effaith bosibl caniatáu i'r rhywogaeth symud i lawr yr hierarchiaeth

| **Cam gweithredu** | **Swyddog cyfrifol** | **Goblygiadau cyllidebol** |
|---|---|---|
| Cynnal rhestr, a gaiff ei diweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn, o'r rhywogaethau estron goresgynnol hynny nad ydynt yn bresennol yn y Fwrdeistref Sirol ond sy'n bresennol mewn rhannau eraill o Gymru ac sy'n fygythiad economaidd neu'n fygythiad i fioamrywiaeth neu seilwaith | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol | Amser swyddog |

---

[5] **Ymddiriedolaeth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, *NBN Atlas Wales,* https://wales-species-inns.nbnatlas.org/**

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu cynllun ar gyfer pob un ynghyd â chyfres o gamau gweithredu yn seiliedig ar y meini prawf a nodir | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol<br><br>Gweithgor Gweithredu (adrannau perthnasol) | Amrywiol – sylweddol o bosibl |

**C) Cael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol newydd eu cyflwyno o'r Fwrdeistref Sirol**

Bydd cofnodion y rhywogaethau estron goresgynnol hynny y deuir o hyd iddynt y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol ac a all beri risgiau sylweddol os cânt eu cyflwyno i'r sir yn cael eu monitro'n barhaus. Ar ôl cadarnhau presenoldeb unrhyw rywogaeth sydd newydd gael ei chyflwyno i'r Fwrdeistref Sirol, caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu ar ei chyfer.

| Cam gweithredu | Swyddog cyfrifol | Goblygiadau cyllidebol |
|---|---|---|
| Datblygu cynllun ar gyfer pob rhywogaeth a gaiff ei chyflwyno ynghyd â chyfres o gamau gweithredu yn seiliedig ar y meini prawf a nodir | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol<br><br>Gweithgor Gweithredu (adrannau perthnasol) | Amser swyddog |
| Cymryd y cam gweithredu a nodir yn y cynllun perthnasol | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol<br><br>Gweithgor Gweithredu (adrannau perthnasol)<br><br>Contractwyr arbenigol | Amrywiol – sylweddol o bosibl |

**D) Cael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol sydd wedi ymsefydlu**

Bydd y Cyngor yn gwneud ymdrechion i roi rhaglenni ar waith i gael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol sydd wedi ymsefydlu ac a restrir yn Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), os caiff unrhyw ddulliau dichonadwy eu datblygu ar gyfer gwneud hynny.

Dylid darllen cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau ochr yn ochr â'r polisi hwn wrth fynd ati i ddilyn rhaglen o'r fath.

## E) Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol sydd wedi ymsefydlu

Bydd y Cyngor yn gwneud ymdrechion i roi rhaglenni ar waith i drin rhywogaethau estron goresgynnol sydd wedi ymsefydlu ac a restrir yn Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd).

Dylid darllen cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau ochr yn ochr â'r polisi hwn wrth fynd ati i ddilyn rhaglen o'r fath.

| **Cam gweithredu** | **Swyddog cyfrifol** | **Goblygiadau cyllidebol** |
|---|---|---|
| Datblygu matrics sgorio er mwyn penderfynu pa rywogaethau estron goresgynnol a pha leoliadau yn y Fwrdeistref Sirol y dylid eu blaenoriaethu | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol<br><br>Gweithgor Gweithredu (adrannau perthnasol)<br><br>Ymgynghorwyr arbenigol | Amser swyddog<br><br>Amrywiol yn dibynnu ar ofynion tendrau |
| Datblygu cynllun ar gyfer pob rhywogaeth â blaenoriaeth ynghyd â chyfres o gamau gweithredu yn seiliedig ar y meini prawf a nodir | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol<br><br>Gweithgor Gweithredu (adrannau perthnasol) | Amrywiol – sylweddol o bosibl |
| Cynnal ymarfer mapio ar lefel sir gyfan ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol â blaenoriaeth (yn seiliedig ar y matrics sgorio ar gyfer blaenoriaethu a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig) sy'n bresennol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol<br><br>Ymgynghorwyr arbenigol | Amser swyddog<br><br>Amrywiol yn dibynnu ar ofynion tendrau |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu fframwaith o gontractwyr cymeradwy i gyflawni ymdrechion trin a rheoli ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol lle bo hynny'n briodol | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol<br><br>Gweithgor Gweithredu (adrannau perthnasol)<br><br>Caffael | Amser swyddog |
| Trin rhywogaethau estron goresgynnol gan ddefnyddio dulliau rheoli fel y'u nodir yn adran 3, yn dilyn yr ymarfer mapio ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol â blaenoriaeth | Yr adran sy'n gyfrifol am y tir lle y cafodd y rhywogaeth estron oresgynnol ei darganfod | Amrywiol – sylweddol o bosibl |
| Datblygu rhestr o gontractwyr trin rhywogaethau estron goresgynnol cymeradwy a dibynadwy i gyfeirio rhanddeiliaid allanol atynt pan fydd presenoldeb rhywogaeth estron oresgynnol wedi'i gadarnhau ar dir nad yw'n eiddo i'r Cyngor nac yn cael ei reoli ganddo | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol<br><br>Gweithgor Gweithredu (adrannau perthnasol) | Amser swyddog |

## F) Peidio â gweithredu ynghylch rhywogaethau estron goresgynnol

Caiff y rhywogaethau hynny nad ydynt yn bodloni meini prawf sgorio'r matrics blaenoriaethu eu rhoi yn y categori lle na chymerir camau gweithredu heblaw gorchwyl gwylio.

| **Cam gweithredu** | **Swyddog cyfrifol** | **Goblygiadau cyllidebol** |
|---|---|---|
| Cynnal gorchwyl gwylio ar rywogaethau estron goresgynnol sydd wedi ymsefydlu ond sydd â blaenoriaeth isel | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol<br><br>Gweithgor Gweithredu (adrannau perthnasol) | Amser swyddog |

## G) Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o rywogaethau estron goresgynnol ymhlith rhanddeiliaid mewnol ac allanol

Mae codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o rywogaethau estron goresgynnol ymhlith yr holl randdeiliaid perthnasol yn bwysig er mwyn sicrhau cefnogaeth i bolisïau a gweithdrefnau perthnasol a dealltwriaeth ohonynt, yn ogystal ag annog ac ysbrydoli newid ymddygiad os bydd gweithgareddau'n peri risg y caiff rhywogaethau estron goresgynnol eu cyflwyno neu y byddant yn ymledu.

| Cam gweithredu | Swyddog cyfrifol | Goblygiadau cyllidebol |
|---|---|---|
| Datblygu a chyflwyno adnoddau, deunyddiau a gweithdai hyfforddi er mwyn gwella gwybodaeth am rywogaethau estron goresgynnol a dealltwriaeth ohonynt | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol<br><br>Contractwyr arbenigol | Amser swyddog<br><br>Amrywiol yn dibynnu ar anghenion / adnoddau hyfforddi |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, e.e. Swyddogion y Cyngor, y cyhoedd, cymdeithasau tai, tirfeddianwyr, cwmnïau cyfleustodau ac ati, er mwyn datblygu gweithgorau i rannu sgiliau, gwybodaeth ac arferion gorau ar gyfer rheoli rhywogaethau | Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol | Amser swyddog |

# 3. Dulliau rheoli rhywogaethau estron goresgynnol

Mae'r adran hon yn y polisi yn esbonio'r dulliau rheoli y bydd y Cyngor yn eu defnyddio ar gyfer pob rhywogaeth estron oresgynnol â blaenoriaeth a restrir yn Atodlen 9 ac sy'n bresennol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd. Penderfynir pa rai y gwneir ymdrech i'w rheoli yn seiliedig ar y matrics sgorio ar gyfer blaenoriaethu a gyhoeddir gyda'r polisi hwn. Mae'r dulliau isod i reoli rhywogaethau estron goresgynnol ar asedau'r Cyngor yn seiliedig ar argymhellion arferion gorau ac mae'n bosibl y byddant yn newid yn unol ag unrhyw waith ymchwil newydd. Nod y strategaeth reoli yw rheoli'r rhywogaethau estron goresgynnol perthnasol er mwyn eu hatal rhag ymledu a chael gwared arnynt o'r ardal gyfagos lle bo modd.

| Rhywogaethau estron | Math o ddull | Dull rheoli'r Cyngor |
|---|---|---|
| Clymog Japan | Cemegol | **Rheoli â chwynladdwr** – ei roi ar y dail neu ei chwistrellu i mewn i'r coesynnau (mae rhoi ar y dail yn fwy costeffeithiol ac yn llai llafurddwys, fodd bynnag) unwaith y flwyddyn rhwng mis Awst a mis Hydref*. |

| | | |
|---|---|---|
| Jac y neidiwr | Ffisegol<br>(y dull a ffefrir)<br><br><br><br>Cemegol | **Tynnu â llaw neu dorri â thrimiwr** – dylid caniatáu i'r planhigyn dyfu er mwyn gallu ei dorri / ei dynnu o dan y cwgn cyntaf. Dylid gwneud hyn **cyn** i'r planhigyn fynd i had. Ar ôl ei dynnu / ei dorri, dylid gadael y planhigyn yn ei le i bydru'n naturiol.<br><br>**Rheoli â chwynladdwr** – ei roi ar y dail. Dylid rhoi blaenoriaeth i dynnu â llaw neu dorri â thrimiwr lle bo hynny'n briodol er mwyn lleihau'r defnydd o chwynladdwr cyn belled ag y bo'n ymarferol. |
| Rhododendron | Mecanyddol / cemegol | **Cwympo coed / llwyni** – eu torri i lawr i'r ddaear ac yna ddefnyddio **triniaeth chwynladdwr** gymeradwy er mwyn atal aildyfiant. |
| Crib-y-ceiliog | Mecanyddol<br><br><br><br><br><br>Cemegol | **Datgloddio'r** holl ddeunydd planhigion a'r pridd o'i amgylch – gall unrhyw ddeunydd planhigion a gaiff ei adael yn y pridd achosi aildyfiant. Caiff yr holl ddeunydd a ddatgloddir ei ystyried yn wastraff a reolir a bydd yn rhaid ei waredu ar safle tirlenwi trwyddedig.<br><br>**Rheoli â chwynladdwr** – ei roi ar y dail rhwng blodeuo a mynd i had (rhwng mis Mehefin a mis Medi). |
| Cotoneaster | Mecanyddol / cemegol | **Cwympo llwyni** – eu torri i lawr i'r ddaear ac yna ddefnyddio **triniaeth chwynladdwr** gymeradwy er mwyn atal aildyfiant. Gellir tynnu planhigion iau allan yn effeithiol heb fod angen trin y bonyn â chwynladdwr.<br><br>Caiff yr holl ddeunydd ei ystyried yn wastraff a reolir a dylid ei asglodi ar y safle neu ei |
| Pidyn-y-gog Americanaidd | Mecanyddol<br><br><br><br><br>Cemegol | **Datgloddio'r** holl ddeunydd planhigion a'i ddinistrio drwy ei sychu, ei gompostio'n ddiogel neu ei losgi bellter priodol i ffwrdd o ddŵr. Dylid gwneud hyn ddwywaith y flwyddyn, sef ar ddiwedd y gwanwyn a diwedd yr haf.<br><br>**Rheoli â chwynladdwr** – ei roi ar y dail rhwng mis Mehefin a mis Hydref. |

| | | |
|---|---|---|
| Cenhinen drionglog | Mecanyddol<br><br><br><br>Cemegol | **Datgloddio'r** holl ddeunydd planhigion a thorri wedyn dros sawl blwyddyn nes y bydd unrhyw hadau hyfyw sy'n weddill yn y pridd wedi cael eu disbyddu.<br><br>**Rheoli â chwynladdwr** – ei roi ar y dail drwy rwbio'r dail yn ystod y gwanwyn cyn i'r planhigyn flodeuo. Bydd angen gwneud hyn nifer o weithiau eto dros sawl blwyddyn nes y bydd unrhyw hadau hyfyw sy'n weddill yn y pridd wedi cael eu disbyddu. |

* Dylid nodi, er y bydd y strategaeth hon ar gyfer defnyddio chwynladdwr yn rheoli clymog Japan, y bydd angen gwneud hyn am o leiaf dair i bum mlynedd er mwyn ei rheoli'n llwyddiannus.

Mae'n annhebygol y bydd modd cael gwared ar glymog Japan yn yr union ardal dan sylw gan y bydd rhisomau hyfyw'n dal i fodoli'n ddwfn yn y pridd, hyd yn oed os na fydd tyfiant i'w weld nac wedi cael ei weld ers sawl blwyddyn. Bydd y risg o aildyfiant yn parhau yn y tymor hir.

Dylid hefyd nodi, er y gall dulliau rheoli fod yn llwyddiannus, y bydd yn bosibl y caiff rhywogaeth estron oresgynnol ei hailgyflwyno i ardal / safle o ffynonellau i fyny'r afon, yn ystod llifogydd, neu o ganlyniad i dresmasu gan dir trydydd parti, gweithgarwch anifeiliaid a phobl ac ati. Felly, mae'n bosibl y bydd angen gwaith monitro hirdymor yn dilyn triniaeth yr ystyrir ei bod yn llwyddiannus, a dulliau rheoli dilynol i reoli unrhyw dyfiant newydd.

Yn unol â gwaith ymchwil, caiff y dulliau rheoli mwyaf effeithiol eu dilyn i reoli rhywogaethau estron goresgynnol sy'n bresennol ar dir a reolir gan y Cyngor, a chael gwared arnynt os bydd modd.

# 4. Delio ag adroddiadau o rywogaethau estron goresgynnol

Mae clymog Japan yn mynd yn broblem gynyddol, yn enwedig i drigolion, oherwydd pryderon y gall y planhigyn achosi difrod i seilwaith ac i'r gallu i forgeisio eiddo sydd â chlymog Japan ar y safle neu'n agos ato, yn ogystal â'r effaith y gall y planhigyn ei chael ar werth eiddo. Mae hyn yn destun pryder arbennig lle y ceir tystiolaeth bod clymog Japan ar yr eiddo neu'n agos ato ac nad oes cynllun i'w rheoli nac ymdrechion i'w thrin ar waith.

Daw nifer cynyddol o adroddiadau i law gan y cyhoedd a pherchnogion eiddo ynglŷn â phresenoldeb a thwf clymog Japan, a hynny ar dir preifat a thir sy'n eiddo i'r Cyngor. Cafodd yr adran hon yn y polisi ei datblygu'n benodol ar gyfer delio â'r cwynion hyn, a chwynion ynglŷn â rhywogaethau estron goresgynnol eraill, mewn modd cyson a gymeradwywyd gan y gorfforaeth.

## 4.1. Y sefyllfa gyfreithiol ynghylch rhywogaethau estron goresgynnol

Nid yw'n drosedd i dirfeddiannwr fod â rhywogaeth estron oresgynnol yn tyfu ar ei dir ond, yn unol ag Adran 14(2) o **Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**, mae'n drosedd plannu unrhyw rywogaethau a restrir yn Atodlen 9 i'r Ddeddf hon neu beri iddynt dyfu yn y gwyllt. Mae clymog Japan wedi'i chynnwys yn y rhestr hon. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw weithredoedd sy'n achosi ymlediad rhywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys clymog Japan, megis strimio, ffustio neu symud pridd halogedig, neu ganiatáu i'r planhigyn ymledu i eiddo cyfagos, fod yn gyfystyr â throsedd.

Yn unol â **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014**, gall cynghorau lleol a'r heddlu roi Hysbysiad Gwarchod y Gymuned i berchnogion/meddianwyr tir mewn sefyllfaoedd lle mae rhywogaeth oresgynnol yn cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl eraill. Byddai'r Hysbysiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt reoli neu atal twf clymog Japan neu blanhigion eraill a all achosi problemau difrifol i gymunedau.

Mae'n bosibl y bydd y Cyngor eisoes wedi arfer pwerau yn unol ag Adrannau 215 – 219 o **Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd)** mewn perthynas â'r asedau a reolir ganddo. Mae'n briodol defnyddio'r pwerau hyn mewn perthynas â rhywogaethau estron goresgynnol sy'n tresmasu o dir trydydd parti, oherwydd gellir eu defnyddio i sicrhau bod rhaglenni addas ar waith er mwyn rheoli rhywogaethau estron goresgynnol. Yn unol ag Adran 215 o'r Ddeddf, byddai gan y Cyngor y pŵer i gyflwyno hysbysiad i berchnogion/meddianwyr tir cydffiniol pe bai'n ymddangos bod cyflwr y tir hwnnw'n cael effaith andwyol ar amwynder yr ardal a gaiff ei chynnal a'i chadw gan y Cyngor. Byddai'r hysbysiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion/meddianwyr y tir cydffiniol roi manylion y camau a gymerwyd i wella cyflwr y tir fel y nodir yn yr hysbysiad, a hynny o fewn y cyfnod a nodir. Ar ben hynny, yn unol ag Adran 219 o'r Ddeddf, tybir y bydd unrhyw gostau y bydd y perchnogion/meddianwyr tir yn mynd iddynt am unrhyw dir at ddiben cydymffurfio â'r hysbysiad yn gostau y byddant wedi mynd iddynt, a hynny ar gais y perchennog/meddiannydd. Os bydd tystiolaeth nad yw'r camau gofynnol wedi cael eu cymryd o fewn cyfnod hysbysiad Adran 215, gall y Cyngor wedyn arfer pwerau i fynd ar y tir cydffiniol er mwyn rhoi'r driniaeth ofynnol. Byddai unrhyw gostau y byddai'r Cyngor yn mynd iddynt yn rhesymol yn cael eu hadennill gan y tirfeddiannwr.

## 4.2. Gweithdrefn ar gyfer delio ag adroddiadau o rywogaethau estron goresgynnol

Pan ddaw cwyn sy'n ymwneud â rhywogaeth estron oresgynnol i law, bydd yr adran berthnasol, e.e. Eiddo, Mannau Gwyrdd, Priffyrdd, Cynllunio, Ymateb i Newid Hinsawdd, yn defnyddio'r system mapio digidol berthnasol i gadarnhau p'un a yw'r tir y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef yn eiddo i'r Cyngor ai peidio. Os bydd y tir yn agos at briffordd ac nad yw'n eiddo i'r Cyngor, dylid hefyd edrych i weld ai priffordd y mae'r Cyngor yn gyfrifol am ei chynnal a'i chadw yw'r tir, e.e. llain las ar ymyl priffordd.

Os cadarnheir mai'r Cyngor sy'n berchen ar y tir / yn gyfrifol amdano, caiff y gŵyn a'r holl fanylion perthnasol eu trosglwyddo i'r Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol. Dylai'r manylion hyn gynnwys lleoliad What3Words a ffotograff o'r planhigyn lle bo modd.
Y Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol fydd yn gyfrifol am wneud trefniadau i archwilio tyfiant y planhigyn. Caiff yr ymchwiliad a'r asesiad eu cynnal gan gyfeirio at Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Codau Ymarfer, a chynllun(iau) gweithredu'r Cyngor a'i fatrics sgorio ar

gyfer blaenoriaethu. Bydd adroddiad yr archwiliad yn cynnwys cadarnhad o'r rhywogaeth, p'un a yw'n rhywogaeth estron oresgynnol ai peidio, a beth yw lleoliad y planhigyn ar y matrics sgorio ar gyfer blaenoriaethu. Un enghraifft fyddai mai clymog Japan yw'r planhigyn, ei bod yn hysbys mai rhywogaeth estron oresgynnol ydyw, a bod yr asesiad yn dangos y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i drin y planhigyn gan ei fod o fewn 3m i ffin berchnogaeth ar dir y Cyngor. Byddai'r adroddiad hefyd yn gwneud argymhellion ar gyfer gwaith adfer yn seiliedig ar y cynllun gweithredu perthnasol a'r dulliau a restrir uchod ar gyfer rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Os gwelir bod rhywogaethau estron goresgynnol yn bresennol ar dir a reolir gan y Cyngor, y Cyngor fyddai'n gyfrifol am reoli'r rhywogaethau hyn. Penderfynir ar faint o frys y byddai angen rheoli'r rhywogaethau hyn, mewn perthynas â'r risg a berir ganddynt, yn seiliedig ar fatricsau sgorio ar gyfer blaenoriaethu. Gall y matricsau hyn amrywio rhwng rhywogaethau, er mwyn ystyried eu dull ymledu, a byddent yn dylanwadu ar ble y bydd y rhaglenni triniaeth yn canolbwyntio.

Pan fydd presenoldeb planhigyn goresgynnol wedi cael ei gofnodi ar dir a reolir gan y Cyngor, caiff ei gategoreiddio fel un sydd â blaenoriaeth uchel, ganolig neu isel yn unol â'r matrics blaenoriaethu. Bydd y Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol naill ai'n rhoi'r driniaeth ar gyfer cellïoedd llai a nodir yn adroddiad yr archwiliad neu'n rhoi gwybod i'r adran gyfrifol beth yw'r canlyniad a'r argymhellion yn yr adroddiad.

Wedyn, cyfrifoldeb yr adran fydd cyfarwyddo contractwyr cymeradwy i wneud gwaith trin. Gall y Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol roi cymorth i'r adrannau hyn lle bo angen, gan mai prif ffocws y rôl yw cydgysylltu camau gweithredu a gymerir gan y Cyngor mewn perthynas â rhywogaethau estron goresgynnol. Bydd rhaglenni triniaeth, mewn ymateb i adroddiadau / cwynion cyhoeddus hanesyddol, yn parhau tan na fydd presenoldeb y planhigyn i'w weld mwyach, gan arwain at dybio ei fod dan reolaeth.

Bydd y Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol yn rhoi gwybod i'r sawl a wnaeth y gŵyn ac yn ei gyfeirio at ragor o wybodaeth ac adnoddau os na fwriedir gwneud gwaith.

## 4.3 Tresmasu gan rywogaethau estron goresgynnol

Dylid dilyn yr hierarchiaeth ymateb i dresmasu gan rywogaethau estron goresgynnol os gall un o adrannau'r Cyngor ddangos tystiolaeth bod tresmasu gan rywogaeth estron oresgynnol wedi effeithio ar werth amwynder tir a reolir gan y Cyngor.

Dylai swyddogion gorfodi'r Cyngor gymryd camau gorfodi priodol os gellir dangos tystiolaeth ddigonol bod unigolion neu sefydliadau penodol wedi tipio'n anghyfreithlon gan arwain at dyfiant rhywogaethau estron goresgynnol ar dir a reolir gan y Cyngor. Gall y Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol roi cymorth i'r swyddog gorfodi lle bo angen.

### 4.3.1 Hierarchiaeth ymateb i dresmasu gan rywogaethau estron goresgynnol

**Cam 1: Llythyr ymwybyddiaeth**

Byddai llythyr yn cael ei anfon at y perchennog / meddiannydd er mwyn ei hysbysu bod presenoldeb rhywogaeth estron oresgynnol ar ei eiddo wedi effeithio ar werth amwynder tir cyfagos a reolir gan y Cyngor neu y gallai wneud hynny. Bydd y llythyr yn rhoi gwybod i'r

perchennog / meddiannydd am y ddeddfwriaeth berthnasol, y technegau trin priodol a rhestr o gontractwyr cymeradwy ac adnoddau er mwyn helpu i adnabod y rhywogaeth estron oresgynnol dan sylw.

Bydd y Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol yn drafftio llythyr templed a bydd yr adran berthnasol yn drafftio llythyr ffurfiol ac yn ei anfon.

**Cam 2: Llythyr rhybudd**
Caiff llythyr ei anfon at y perchennog / meddiannydd yn ei hysbysu bod rhywogaeth estron oresgynnol sy'n bresennol ar ei dir yn tresmasu ar dir a reolir gan y Cyngor a bod angen ei thrin. Caiff manylion adnabod, gofynion cyfreithiol, opsiynau rheoli priodol a rhestr o gontractwyr lleol cymeradwy eu hamgáu. Swyddog gorfodi o'r adran berthnasol neu swyddog cyfreithiol fydd yn anfon y llythyr.

**Cam 3: Hysbysiad rheoli**
Bydd y Cyngor yn cyflwyno hysbysiad Adran 215 yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog / meddiannydd ddangos, o fewn cyfnod o 28 diwrnod, fod camau priodol wedi cael eu cymryd i drin y rhywogaeth estron oresgynnol. Yn unol â'r hysbysiad, y perchennog / meddiannydd fyddai'n talu costau'r rhaglen driniaeth. Swyddog gorfodi o'r adran berthnasol neu swyddog cyfreithiol fydd yn cyflwyno'r hysbysiad.

**Cam 4. Camau uniongyrchol gan y Cyngor**
Os na fydd y perchennog / meddiannydd wedi dangos tystiolaeth bod camau digonol wedi cael eu cymryd o fewn cyfnod hysbysiad Adran 215, byddai gan y Cyngor bwerau, yn unol ag Adran 219 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i fynd ar y tir a threfnu i raglen driniaeth briodol gael ei rhoi ar waith i wella cyflwr y tir, a hynny am gyfnod y tybir ei fod yn ddigonol i reoli'r rhywogaeth estron oresgynnol sy'n bresennol.

Yr adran y bydd y tresmasu gan rywogaeth estron oresgynnol wedi effeithio arni fydd yn trefnu camau gweithredu uniongyrchol. Gwneir hyn gyda chymorth gan swyddog gorfodi yn yr adran neu gan swyddog cyfreithiol. Y Cyngor fyddai'n talu costau rhaglenni triniaeth ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol, a byddai'n eu hadhawlio gan y perchennog / meddiannydd wedyn.

### 4.3.2 Gweithdrefn ar gyfer delio ag adroddiadau o rywogaethau estron goresgynnol wedi'u tipio'n anghyfreithlon

Bydd swyddogion gorfodi yn y tîm Strydoedd Glanach a Gwastraff, neu'r tîm Cynllunio os bydd amodau cynllunio wedi'u torri, yn ymchwilio i achos o dipio deunydd sy'n cynnwys rhywogaeth estron oresgynnol yn anghyfreithlon. Dylai'r Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol gael gwybod am yr holl adroddiadau ac ymatebion dilynol sy'n ymwneud ag achosion o dipio rhywogaethau estron goresgynnol yn anghyfreithlon.

# 5. Atal neu liniaru ymlediad

### 5.1. Atal ymlediad o waith stryd neu waith ffordd gan ymgymerwyr statudol.

Caiff yr holl ddata sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol a gofnodir ar dir y Cyngor ac sy'n deillio o unrhyw ymarfer mapio INNS eu rhannu â swyddogion Gwaith Stryd i'w cynnwys mewn nodiadau peirianneg.

Dylai nodiadau peirianneg sy'n ymwneud â phresenoldeb rhywogaethau estron goresgynnol, a'r risg y byddant yn ymledu, gael eu cofnodi ar y systemau perthnasol. Dylai'r nodiadau hyn roi gwybod i unrhyw ymgymerwyr statudol sy'n bwriadu gwneud gwaith, megis cwmnïau cyfleustodau, am y risg bosibl. Dylent hefyd ysgogi'r broses o roi mesurau osgoi a lliniaru priodol ar waith.

### 5.2. Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol drwy'r broses cynllunio datblygu

Dylai swyddogion cynllunio ofyn i'r Swyddog Rhywogaethau Goresgynnol neu barhau i ofyn i swyddogion yn y tîm Ymateb i Newid Hinsawdd am sylwadau os deuir o hyd i unrhyw rywogaethau estron goresgynnol yn ystod Asesiadau Ecolegol Rhagarweiniol, Asesiadau o'r Effaith Ecolegol ac Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol neu os bydd unrhyw ansicrwydd ynghylch presenoldeb rhywogaethau estron goresgynnol.

# 6. Deddfwriaeth sy'n berthnasol i rywogaethau estron goresgynnol

Diben Adran 14 o **Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981** (fel y'i diwygiwyd) yw atal planhigion ac anifeiliaid penodol a all achosi niwed ecolegol, amgylcheddol neu economaidd-gymdeithasol, rhag cael eu rhyddhau i'r gwyllt.

Mae Rhan I Adran 14(1) a (2) i **Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981** yn gwneud y canlynol yn drosedd:

- Cadw, gwerthu neu ryddhau unrhyw anifail nad yw'n preswylio fel arfer neu'n ymwelydd rheolaidd ym Mhrydain Fawr fel y rhestrir yn Atodlen 9, neu ganiatáu i anifail o'r fath ddianc.
- Plannu unrhyw blanhigyn a restrir yn Atodlen 9 yn y gwyllt neu beri iddo dyfu yno fel arall.

Mae **Rheoliad yr UE 1143/2014 ar Rywogaethau Estron Goresgynnol** yn gorfodi aelod-wladwriaethau i reoli rhywogaethau estron goresgynnol. Drwy'r rheoliad hwn, mae gan asiantaethau'r llywodraeth (Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru) y pŵer i gyflwyno gorchmynion rheoli ar gyfer cael gwared ar rywogaethau chwyn estron goresgynnol risg uchel o safleoedd penodedig, gan gynnwys datblygiadau preswyl ac eiddo cyfagos.

Yn unol â **Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990**, ystyrir bod gan unrhyw bridd a gwastraff sy'n cynnwys egin rhywogaeth planhigyn a restrir yn Atodlen 9 i **Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn**

**Gwlad 1981** (fel y'i diwygiwyd) a waredir, y bwriedir eu gwaredu neu y bydd yn ofynnol eu gwaredu, botensial i achosi niwed ecolegol ac felly tybir eu bod yn 'wastraff a reolir'. Bydd angen amodau penodol, megis trwydded, i gludo a gwaredu gwastraff a reolir.

Mae **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014** yn rhoi pwerau i gynghorau a'r heddlu gyflwyno Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned os profir bod effaith andwyol o natur gyson neu barhaus ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal leol, a bod yr ymddygiad yn afresymol. Mae Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned wedi cael eu cyflwyno er mwyn ei gwneud yn ofynnol i rywun reoli neu atal twf planhigion estron goresgynnol a all achosi problemau difrifol i gymunedau. Mae peidio â chydymffurfio â Hysbysiad o'r fath yn drosedd.

Gwnaeth **Deddf Seilwaith 2015** ddiwygio **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981** i gyflwyno cyfundrefn statudol o Gytundebau a Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau er mwyn sicrhau y bydd tirfeddianwyr yn gweithredu ynghylch rhywogaethau estron goresgynnol neu'n caniatáu i eraill fynd ar y tir hwnnw i gymryd camau gweithredu. Mae'r Cod Ymarfer[6] yn nodi manylion y Cytundebau a'r Gorchmynion hyn.

Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn nodi dull Cymru o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol ar lefel genedlaethol a lleol gyda diben cyffredinol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae Adran 6 o'r Ddeddf yn ymgorffori dyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a cheisio hybu cadernid ecosystemau. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau ar y camau a gymerir ganddynt i wella bioamrywiaeth a hybu cadernid ecosystemau. Mae effaith gydnabyddedig llawer o rywogaethau estron goresgynnol ar fioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu gwneud yn un o nodweddion pwysig dyletswydd Adran 6.

Mae Adrannau 215, 216 a 219 o **Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990** (fel y'i diwygiwyd) yn rhoi rheolaethau penodol i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y caiff cyflwr unrhyw dir cyfagos ei wella os gwelir ei fod yn cael effaith andwyol ar werth amwynder tir cydffiniol a reolir gan yr awdurdod.

Mae Adran 215 (1), (2), (3) a (4) o **Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990** (fel y'i diwygiwyd) yn rhoi'r pŵer i gyflwyno hysbysiad i berchennog/meddiannydd tir cydffiniol os bydd yn ymddangos i'r awdurdod cynllunio lleol bod cyflwr tir cydffiniol yn yr ardal honno'n cael effaith andwyol ar amwynder ei dir. Bydd yr hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol cymryd y camau a nodir yn yr hysbysiad i wella cyflwr y tir, a hynny o fewn y cyfnod a nodir.

Mae Adran 216 (2) o **Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990** (fel y'i diwygiwyd) yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol roi dirwy o hyd at £1000 os na fydd y perchennog/meddiannydd y cafodd yr hysbysiad Adran 215 ei gyflwyno iddo yn cymryd y camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad o fewn y cyfnod a nodir.

Adran 219 (1) o **Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990** (fel y'i diwygiwyd)

---

[6] **Llywodraeth Cymru, *Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru*, Mai 2017, https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/cod-ymarfer-ar-gyfer-darpariaethau-rheoli-rhywogaethau.pdf**

O fewn y cyfnod a nodir mewn hysbysiad o dan Adran 215, caiff yr awdurdod lleol a gyflwynodd yr hysbysiad Adran 215 fynd ar y tir y cyfeirir ato yn yr hysbysiad a chymryd camau i wella ei gyflwr; gyda chostau y bydd yr awdurdod lleol yn mynd iddynt yn rhesymol yn cael eu hadennill gan y tirfeddiannwr.